GRIFFITH, WILLIAM (1801 - 1881), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: William Griffith
Dyddiad geni: 1801
Dyddiad marw: 1881
Priod: Alicia Griffith (née Evans)
Plentyn: John Purser Griffith
Rhiant: Janet Griffith (née Williams)
Rhiant: John Griffith
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ail fab John Griffith (1752 - 1818); ganwyd 12 Awst 1801 yng Nglan-yr-afon, Llanfaglan. Bu yn y Neuaddlwyd a Chaerfyrddin, ac urddwyd ef yn 1822 yn weinidog Caergybi, lle y bu hyd ei farwolaeth, ar waethaf galwadau o eglwysi pwysig yn Llundain, Lerpwl, Caerfyrddin, a mannau eraill. Bu bugeiliaeth faith Griffith yn bwysig iawn yn hanes Annibyniaeth Môn, a thyfodd yntau'n un o arweinwyr ei enwad yn y Gogledd. Bu farw 13 Awst 1881. Y mae ei gysylltiadau â Morafiaeth yn ddiddorol. Nith oedd ei fam i William Griffith (1719 - 1782) o Ddrws-y-coed, a'i gydnabyddiaeth â'r teulu a arweiniodd i'w briodas (1843) ag Alicia Evans, yres i'r un William Griffith; yng nghapel y Morafiaid ym Mryste y priodwyd hwy, a daeth Mary Griffith, modryb y briodasferch a ' llafurwraig ' yn eglwys y Morafiaid, i fyw atynt i Gaergybi, lle y bu hi farw yn 1847. Bu farw Mrs. Griffith 21 Mawrth 1865. Am eu mab Syr John Purser Griffith gweler dan ei enw.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

E. Cynffig Davies, *Cofiant y Parch. William Griffith, Caergybi* (1883), 1883

Y Cymmrodor, xlv, 119-20, 152-3

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734621

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu